

Hawdd ei Ddeall

 **Prentisiaethau
Apprenticeships**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun i helpu rhagor o bobl anabl i ddefnyddio prentisiaethau

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: 'Prentisiaethau Cynhwysol. Cynllun Gweithredu Anabledd ar gyfer Prentisiaethau 2018 – 2021'

Chwefror 2019



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund**

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall. Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn ysgrifen glas normal. Mae beth maen nhw'n feddwl yn y geiriau anodd ar dudalen 35.

Rydyn ni wedi ysgrifennu rhestr o brosiectau a chyrrff rydyn ni wedi siarad amdany'n nhw yn y ddogfen yma. Mae ar dudalen 33.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth am y cynllun cysylltwch gyda:



Cyfeiriad: Adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau
Llywodraeth Cymru
Ty'r Afon
Heol Bedwas,
Caerffili, CF83 8WT



E-bost: DfES-Apprenticeshipunit@llyw.cymru



Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Contents

Page

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....	2
Neges gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - Eluned Morgan.....	4
Am y cynllun yma.....	6
Beth rydyn ni wedi ei wneud hyd yn hyn.....	8
Beth mae'r gweithgor wedi ei ddweud.....	12
Beth rydyn ni eisiau ei weld yn digwydd?.....	17
Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod yn gwneud pethau'n gywir?.....	18
Y cynllun.....	19
Y cynllun yma a'r gyfraith.....	31
Enghraifft o rhywun sydd wedi bod yn brentis.....	32
Rhestr o brosiectau a chyrff.....	33
Geiriau anodd.....	35

Neges gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - Eluned Morgan



Mae cael swydd yn bwysig iawn i helpu pobl i fod yn fwy annibynnol a hyderus. Mae'n bwysig hefyd ar gyfer iechyd a llesiant pobl.



Mae'r nifer o bobl anabl yng Nghymru sydd â swydd yn llawer is na phobl sydd ddim yn anabl.



Mae Llywodraeth Cymru eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un siawns a'r un cyfle.



Mae'r **Rhaglen Prentisiaeth** yn ffordd dda o helpu gyda hyn.



Prentisiaeth ydy pan mae person yn dysgu sgiliau swydd tra'n cael eu talu. Maen nhw'n derbyn llai o arian na rhai eraill sydd yn gwneud yr un gwaith oherwydd maen nhw'n dal i ddysgu. **Prentis** ydyn nhw.



Mae'r **Rhaglen Prentisiaeth** yn wasanaeth sydd yn helpu pobl i gael **prentisiaeth**.



Enw'r cwmnïau sydd yn rhedeg **Rhaglen Prentisiaeth** ydy **darparwyr prentisiaeth**.



Rydyn ni eisiau i ragor o bobl anabl yng Nghymru ddefnyddio prentisiaethau.



Dyma gynllun i helpu i wneud i hynny ddigwydd.



Mae **gweithgor** wedi cael ei sefydlu gyda phobl o gyrff anabledd i helpu i ddweud wrthyn ni beth mae angen inni ei wneud.

Gweithgor ydy grŵp o bobl sydd yn dod at ei gilydd i wneud gwaith ar rhywbeth arbennig.



Eluned Morgan AM

Am y cynllun yma



Rydyn ni eisiau i bobl yng Nghymru gael yr un cyfle i ddefnyddio **prentisiaethau**.



Mae cyflogwyr eisiau'r bobl orau i wneud eu gwaith.



Mae pobl anabl angen y cyfle i ddatblygu eu gyrfa. Efallai eu bod nhw angen y gefnogaeth gywir i wneud hyn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r **model cymdeithasol o anabledd** er mwyn helpu i gael gwared ar y rhwystrau y mae pobl anabl yn gallu eu wynebu.



Mae'r **model cymdeithasol o anabledd** yn dweud bod y ffordd y mae cymdeithas yn gweithio yn gallu stopio pobl anabl rhag gwneud pethau. Mae angen i gymdeithas newid y ffordd mae'n gweithio er mwyn gwneud bywyd yn fwy teg i bobl anabl.



Mae'r ffordd yma o feddwl yn helpu i wneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un siawns a chyfle.



Does yna ddim digon o bobl anabl yn defnyddio **prentisiaethau** yng Nghymru. Rydyn ni wedi ysgrifennu cynllun i helpu i newid hyn.



Mae'r gwaith yma hefyd yn mynd gyda polisiau a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru:

- Cynllun Gweithredu Economaidd
- Cynllun Cyflogadwyedd
- Gweithredu ar Anabledd: yr Hawl i Fyw'n Annibynnol.



Rydyn ni eisiau i leoedd gwaith yng Nghymru fod yn fwy teg a rhoi mwy o gyfleoedd i bawb.



Fe fyddwn ni'n helpu busnesau i gael gwybodaeth a chefnogaeth am gyflogi pobl anabl.



Rydyn ni eisiau gweld 1 miliwn mwy o bobl anabl mewn gwaith erbyn 2027.

Beth rydyn ni wedi ei wneud hyd yn hyn



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen i gael [prentisiaeth](#).



Mae pob [prentis](#) anabl yn gallu cael cefnogaeth gan y **Gronfa Gymorth Dysgu Ychwanegol**. Mae'n gallu cael ei defnyddio i dalu am gefnogaeth i helpu pobl anabl i ddysgu a hyfforddi.



Mae Darparwyr Hyfforddiant yn gallu cael arian gan y **Gronfa Gymorth Dysgu Ychwanegol** i helpu i gefnogi [prentisiaid](#) anabl.



Efallai bod rhai pobl anabl angen mwy o gefnogaeth nag y mae'r **Gronfa Gymorth Dysgu Ychwanegol** yn gallu ei roi.



Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda Remploy i helpu pobl sydd yn cymryd rhan yn y **Rhaglen Dewis Gwaith** a'r **Rhaglen Gwaith ac Iechyd** i gael [prentisiaethau](#).



Rydyn ni wedi bod yn rhoi hyfforddiant [cydraddoldeb](#) ac [amrywiaeth](#) i [ddarparwyr prentisiaeth](#).

Cydraddoldeb



Cydraddoldeb ydy trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael yr un cyfleoedd.

Mae **Amrywiaeth** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft pobl yng Nghymru sydd:

- Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau.
- Yn gallu gwneud pethau gwahanol.
- Yn credu pethau gwahanol.
- Mewn oedran gwahanol.
- Yn gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw'n byw eu bywydau.



Rydyn ni hefyd wedi gwneud pecyn cymorth gyda gwybodaeth ac adnoddau. **Pecyn Cymorth Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant.**



Mae llawer o **ddarparwyr prentisiaeth** wedi ymuno gyda **Amser i Newid**. Mae hyn yn meddwl eu bod nhw yn ceisio newid y ffordd y mae pobl yn meddwl am iechyd meddwl yn y gwaith.



Rydyn ni wedi gwneud adran newydd ar y wefan **Porth Sgiliau Busnes** i roi gwybodaeth i gwmnïau am gyflogi pobl anabl.



Mae **Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru** hefyd yn cefnogi **darparwyr prentisiaeth** i weithio gyda rhagor o bobl anabl a phobl o gymunedau **Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)**.



Efallai bod pobl o gymunedau **Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)** yn dod o wlad arall neu efallai bod lliw eu croen yn wahanol.



Fe wnaethon ni ysgrifennu **Cynllun Cyflogadwyedd** am gydraddoldeb a thegwch.



Cyn bo hir fe fydd **Cyngor ar Waith Cymru** yn dechrau gwneud yr **asesiadau** yn well i bobl cyn iddyn nhw ddechrau **prentisiaeth**.



Aseiad ydy ffordd o gael mwy o wybodaeth am rhywun. Er enghraifft, gweld faint o gefnogaeth maen nhw ei angen.



Fe fyddwn ni hefyd yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen.

Beth mae'r gweithgor wedi ei ddweud



Mae grŵp wedi cael ei sefydlu i helpu i ysgrifennu'r cynllun yma. Roedd llawer o bobl o gyrff anabledd yn rhan o'r grŵp yma. Dyma beth oedd y grŵp yn ei ddweud:



- Yn aml dydy pobl anabl ddim yn teimlo eu bod nhw'n gallu defnyddio **prentisiaethau**.



- Mae'r gwasanaeth i ddarganfod **prentisiaeth** yn anodd i'w ddefnyddio.



- Mae cyflogwyr angen gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael i **brentisiaid** anabl.



- Rydyn ni angen cael pobl anabl sydd yn gallu bod yn **fodelau rôl** i **brentisiaethau**. Maen nhw'n gallu siarad am pa mor dda mae **prentisiaethau** yn gallu bod.

Model rôl ydy rhywun sydd yn dangos esiampl dda i eraill.



- Rydyn ni hefyd angen cael cyflogwyr i fod yn **fodelau rôl**.



- Yn y gorffennol mae cyflowgwyr wedi cael arian i gymryd **prentisiaid**. Ond dydy hyn ddim wedi gweld mwy o bobl anabl yn cael swyddi. Mae'r **gweithgor** yn meddwl bod hyn yn anghywir.



- Mae newid y ffordd mae cyflogwyr yn meddwl ac yn gweithio yn gallu bod yn fwy defnyddiol. Er enghraifft, rhoi hyfforddwyr swydd i bobl.



- Mae angen i'r rheolau **prentisiaethau** fod yn fwy rhydd. Mae rhai o'r rheolau yn ei gwneud yn fwy anodd i bobl anabl gael **prentisiaeth**.



- Efallai ei bod yn beth da rhoi cefnogaeth i bobl cyn iddyn nhw ddechrau **prentisiaeth**.

Roedd y grŵp yn meddwl y byddai'r rhaglen newydd **Cymru'n Gweithio** yn gallu rhoi'r gefnogaeth yma i bobl.



- Mae deddfau gwahanol yn esbonio'r gair anabledd mewn ffyrdd gwahanol.

Mae angen inni edrych ar yr wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu am anabledd. A sut mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio.



- Efallai y bydd **prentisiaid** yn poeni os ydyn nhw'n dweud wrth eu cyflogwr am gyflwr iechyd neu anabledd y byddan nhw'n colli eu gwaith.

Mae angen inni wneud yn siŵr bod **prentisiaid** yn teimlo eu bod nhw'n **gallu** dweud wrth eu cyflogwr am gyflwr iechyd neu anabledd. A gofyn am y gefnogaeth maen nhw ei angen.



- Mae angen inni wneud yn siŵr bod pobl ifanc anabl yn gwybod pa ddewisiadau sydd ganddyn nhw pan maen nhw'n gadael ysgol neu goleg.



- Fe wnaeth adroddiad gan **Gomisiynydd Plant Cymru** ddweud nad oedd digon o gyfloedd ar gyfer gwaith, **prentisiaethau** a gwaith gyda chefnogaeth.



- Does yna ddim digon o gefnogaeth i bobl ifanc 16-18 oed sydd gyda chyflyrau iechyd hir dymor i ddarganfod swydd.



- Mae **prentisiaid** angen y gefnogaeth sydd yn iawn iddyn nhw.



- Does yna ddim digon o gefnogaeth i bobl cyn iddyn nhw ddechrau **prentisiaeth**.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud rhaglen hyfforddiant i bobl sydd ddim eto yn barod i ddechrau **prentisiaeth**.



- Efallai bod rhai pobl anabl angen mwy o gefnogaeth gan y **darparwyr prentisiaeth**.



- Fe ddylai **prentisiaid** gael cyfweiliad ar ddiwedd **prentisiaeth** i weld os ydyn nhw wedi aros mewn gwaith.



- Mae llawer o gyflogwyr eisiau cyflogi rhagor o bobl anabl ond dydyn nhw ddim yn gwybod beth sydd angen iddyn nhw ei wneud. Mae nhw angen mwy o wybodaeth.



- Mae cyflogwyr angen gwybod pa help a chefnogaeth maen nhw'n gallu ei gael pan maen nhw'n cyflogi pobl anabl.



- Mae **darparwyr prentisiaeth** angen gwybod sut i ddarganfod a chefnogi dysgwyr anabl.

Maen nhw hefyd angen gwybod sut i ddarganfod a chefnogi cwmnïau fydd yn cyflogi **prentisiaid** anabl.



- Mae yna lawer o gyrff sydd yn gallu rhoi cefnogaeth. Mae pobl anabl a chyflogwyr angen gwybod lle i gael y gefnogaeth yma.



- Mae angen inni edrych ar sut mae'r **Gronfa Gymorth Dysgu Ychwanegol** yn cael ei defnyddio.

Fe fyddai yn help pe byddai'r arian yn gallu cael ei ddefnyddio gan y **darparwyr prentisiaeth** gan weithio gyda gwasanaethau cefnogi. Er enghraifft, hyfforddwyd swydd neu gefnogaeth iechyd.



- Mae angen i'r ffordd y mae pobl yn gwneud cais am y **Rhaglen Mynediad i Waith** fod yn well.

Beth rydyn ni eisiau ei weld yn digwydd?



Rydyn ni eisiau **Rhaglen Prentisiaeth** sydd yn deg i bawb.



Rydyn ni eisiau ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i bobl anabl gael **prentisiaeth**.



Rydyn ni eisiau i **brentisiaid** wybod os ydyn nhw'n dewis dweud wrth eu cyflogwr am broblem iechyd neu anabledd y byddan nhw'n cael y gefnogaeth maen nhw ei angen.



Fe fydd y **gweithgor** yn rhoi cyngor am y gefnogaeth sydd yn gallu helpu.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod yn gwneud pethau'n gywir?



Fe fydd y **gweithgor** yn edrych ar y cynllun ac ar beth rydyn ni'n ei wneud bob blwyddyn.



Fe fyddwn ni'n dweud wrth **Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes** beth rydyn ni wedi ei wneud bob blwyddyn.



Fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn ar sut mae'r **prentisiaid** anabl yn dod yn eu blaen o'u cymharu gyda'r rhai sydd ddim yn anabl.



Y cynllun

Mae'r cynllun yn gallu newid dros y 3 blynedd nesaf os ydyn ni'n meddwl bod angen hynny.



Dyma'r problemau rydyn ni wedi eu gweld a beth rydyn ni eisiau ei wneud amdanyn nhw.

1. Dydy pobl ddim yn deall sut mae prentisiaethau yn gallu helpu pobl o bob oed



Erbyn diwedd Rhagfyr 2019 fe fyddwn ni:



- Yn helpu pobl i ddeall mwy am [brentisiaethau](#).



- Rhoi enghreifftiau o bobl anabl sydd wedi bod yn rhan o'r [Rhaglen Prentisiaeth](#).



- Gwneud yn siŵr bod ein gwefan a'r wybodaeth yn **hygyrch**.



Mae **hygyrch** yn meddwl gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio neu ddeall rhywbeth. Er enghraifft, ramp i fynd i mewn i adeilad neu wybodaeth hawdd ei ddeall.



- Helpu mwy o bobl anabl i ddefnyddio '**Have a Go**'. Gwasanaeth ydy hwn i helpu pobl ifanc i ddysgu rhagor am wahanol fathau o swyddi.



- Ysgrifennu fersiwn Gymraeg o ddogfen **Disability UK Into Apprenticeships – The Guide for Disabled People**.

2. Dydy cyflogwyr ddim yn deall sut mae cyflogi pobl anabl yn gallu helpu eu busnes. Na pa gefnogaeth maen nhw'n gallu ei gael i gyflogi prentis



Dros y 3 blynedd nesaf fe fyddwn ni:



- Yn dweud wrth gyflogwyr pa gefnogaeth sydd ar gael i [brentisiaid anabl](#).



- Dathlu [amrywiaeth](#) ar y [Rhaglen Prentisiaeth](#). Er enghraifft drwy [modelau rôl](#) a straeon pobl.



Erbyn diwedd Rhagfyr 2020 fe fyddwn ni:



- Yn edrych ar sut rydyn ni'n gallu gwneud offeryn i gyflogwyr iddyn nhw gael gweld sut maen nhw'n gwneud.

3. Mae rhai o'r rheolau yn ei gwneud yn anodd i bobl anabl ddod yn brentis. Er enghrafft, gweithio 16 awr yr wythnos neu sgiliau ysgrifennu a darllen



Erbyn diwedd Rhagfyr 2020 fe fyddwn ni:



- Yn edrych ar ffyrdd i newid y rheolau i'w gwneud hi'n haws i bobl anabl.



- Edrych ar y sgiliau mae pobl eu hangen ar gyfer [prentisiaethau](#). A gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gweithio'n dda i bobl anabl.



- Sefydlu grŵp i edrych ar y rheolau.



- Gweithio gyda [darparwyr prentisiaeth](#) ar unrhyw newidiadau i'r rheolau.

4. Dydy rhai pobl ddim eisiau dweud bod ganddyn nhw gyflwr iechyd neu anabledd. Ac mae anghenion pobl yn gallu newid



Erbyn Rhagfyr 2020 fe fyddwn ni yn



- Edrych ar sut rydyn ni'n gallu gwneud yn siŵr bod **prentisiaid** yn teimlo'n gyfforddus i ddweud wrth eu cyflogwr am gyflwr iechyd neu anabledd.



- Talu am ymchwil i edrych ar sut rydyn ni'n casglu gwybodaeth nawr.



- Ceisio gweld faint o **brentisiaid** sydd ddim yn dweud wrth eu cyflogwyr bod ganddyn nhw gyflwr iechyd neu anabledd.



- Penderfynu os oes angen inni newid beth rydyn ni'n feddwl pan rydyn ni'n defnyddio'r gair anabl. Mae Lloegr a'r Alban wedi gwneud hyn yn barod.

5. Mae prentisiaid angen cefnogaeth sydd yn iawn iddyn nhw



Erbyn diwedd Rhagfyr 2020 fe fyddwn ni:



- Yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen.



- Yn edrych ar dalu am hyfforddwr swydd i **brentisiaid** anabl sydd angen cefnogaeth ychwanegol.



- Yn gwneud yr asesiadau yn well cyn i bobl ddechrau prentisiaeth er mwyn iddyn nhw gael y gefnogaeth maen nhw ei angen.



- Yn gwneud yn siŵr bod y **Gronfa Gymorth Dysgu Ychwanegol** yn gallu cael ei defnyddio i gefnogi anghenion **prentisiaid** anabl.



- Ei gwneud hi'n haws i bobl anabl fynd ar y **Rhaglen Prentisiaeth**.



- Yn ceisio rhoi cefnogaeth a hyfforddiant i bobl anabl cyn iddyn nhw ddechrau **prentisiaeth**. Mae hyn yn gallu helpu i ddarganfod mwy am beth maen nhw ei angen.

6. Dydy rhai cyflogwyr ddim yn gwybod sut i gyflogi prentis anabl



Erbyn Rhagfyr 2020 fe fyddwn ni:



- Yn siarad gyda chyflogwyr am ymuno gyda chynllun fel **Hyderus o ran Anabledd**.



- Rhoi gwybodaeth i gyflogwyr am sut y mae cyflogi **prentis** anabl yn gallu helpu eu busnes.



- Dweud wrth gyflogwyr sut maen nhw'n gallu ei gwneud yn fwy hawdd ac yn fwy teg i bobl anabl wneud cais am swydd.



- Edrych ar wahanol ffyrdd o gael cyflogwyr i dderbyn **prentisiaid** anabl.



- Rhoi gwybodaeth i gyflogwyr am y gefnogaeth maen nhw'n gallu ei gael os ydyn nhw'n cyflogi **prentis** anabl.



- Trefnu digwyddiadau am ddim gyda'r **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** i siarad am pam mae'n beth da i gyflogi pobl anabl.



- Edrych ar sut mae rhannau eraill o'r DU yn helpu cyflogwyr i dderbyn **prentisiaid** anabl.



- Fe fydd gwasanaeth newydd yn **Gyrfaoedd Cymru** yn chwilio am ragor o **brentisiaethau** i bobl anabl.

7. Does yna ddim digon o brentisiaid anabl



Erbyn diwedd Rhagfyr 2019 fe fyddwn ni:



- Yn gwneud yn siŵr bod **darparwyr prentisiaeth** yn gwybod am y **Pecyn Cymorth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Llywodraeth**.



- Yn rhoi targedau i **ddarparwyr prentisiaeth** i gael rhagor o bobl anabl i **brentisiaethau**.



- Gwneud yn siŵr bod **darparwyr prentisiaeth** yn gwybod sut i gael cefnogaeth.



- Helpu **darparwyr prentisiaeth** i ddeall a defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd.



Erbyn diwedd Rhagfyr 2020 fe fyddwn ni:



- Yn gwneud yn siŵr bod cefnogaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael ei ddefnyddio yn y ffyrdd gorau.



- Fe fydd angen i **ddarparwyr prentisiaeth** ddangos sut maen nhw'n gweithio gyda mwy o **brentisiaid** anabl. A dweud wrthyn ni sut maen nhw'n eu cefnogi.



- Edrych ar sut mae adroddiadau arolwg addysg yn gallu edrych ar faint o ddysgwyr anabl sydd yn derbyn cefnogaeth.

8. Dydy'r Rhaglen Prentisiaeth ddim bob amser yn gweithio'n dda gyda rhaglenni hyfforddi neu gyflogaeth eraill i bobl anabl



Erbyn diwedd Rhagfyr 2019 fe fyddwn ni:



- Yn edrych ar ffyrdd y mae [darparwyr prentisiaeth](#) yn gallu gweithio gyda chyrrff anabledd a chyflogaeth.



- Gwneud yn siŵr bod [darparwyr prentisiaeth](#) yn defnyddio gwasanaethau sydd yn gallu eu helpu i gefnogi pobl anabl. A deall eu hanghenion.

9. Mae angen i bobl sydd yn ysgrifennu rheolau am brentisiaethau weithio gyda chyrrff cefnogi



Erbyn diwedd Rhagfyr 2019 fe fyddwn ni:



- Yn gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu defnyddio ein [Rhaglen Prentisiaeth](#).



- Gofyn i'r **gweithgor** edrych ar beth rydyn ni'n ei wneud.



- Yn gwneud yn siŵr bod gan **ddarparwyr prentisiaeth** gynllun i weithio gyda chyrff cefnogi.



- Ysgrifennu rheolau ar gyfer y **gweithgor** fel eu bod nhw'n gwybod beth i'w wneud.



- Gwneud yn siŵr bod y **gweithgor** yn edrych ar y cynllun yma yn gyson.



- Parhau i weithio gyda phobl ifanc i'w helpu i symud o addysg i hyfforddiant neu gyflogaeth.



- Cefnogi pobl o bob oed i gyrraedd eu nodau ar gyfer dysgu a gwaith.



Erbyn diwedd Rhagfyr 2019 fe fydd Gyrfaoedd Cymru:



- Yn gofyn i gyrff eraill beth maen nhw'n feddwl am eu cynlluniau ar gyfer **cydraddoldeb** ac **amrywiaeth**.



- Yn gofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl am y cyngor a'r gefnogaeth maen nhw'n ei gael gan **Gyrfaoedd Cymru**. Fe fydd hyn yn eu helpu i wneud eu gwasanaeth yn well.



- Yn helpu i chwilio am fwy o **brentisiaethau** i bobl anabl.

Y cynllun yma a'r gyfraith




Mae'r cynllun yma wedi'i seilio ar nifer o ddeddfau a rheolau.




1. Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Personau gydag Anableddau (UNCRPD)

Dyma set o reolau i helpu i wneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael yr un hawliau â phobl sydd ddim yn anabl.



2. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Dyma set o reolau sydd yn helpu i amddiffyn hawliau plant.



3. Deddf Cydraddoldeb 2010

Dyma ddeddf sydd yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn **gyfartal** ac yn deg.

Enghraifft o rhywun sydd wedi bod yn brentis



Mae Nicholas D’Cruz yn 25. Mae ganddo anabledd dysgu ac awtistiaeth. Roedd eisiau cael swydd fyddai yn ei helpu i fod yn fwy annibynnol.



Roedd eisiau symud allan o’r cartref gofal i dai gyda chefnogaeth. Daeth yn **brentis** mewn caffi. Mae’n cael cefnogaeth gan gorff o’r enw **Ymddiriedolaeth Shaw**.



Mae wedi dysgu sgiliau newydd. Mae e’n dweud bod y swydd wedi newid ei fywyd. Mae’r **brentisiaeth** wedi ei helpu i gael mwy o arian. Mae e’n fwy hyderus ac yn fwy annibynnol.



Rhestr o brosiectau a chyrff

Dyma rai o'r prosiectau a'r cyrff rydyn ni wedi siarad amdany'n nhw yn y ddogfen yma. Fe fydd y rhestr yn esbonio beth mae pob corff neu brosiect yn ei wneud.

Amser i Newid

Mae Amser i Newid yn ymgyrch fawr ar draws y DU. Nod yr ymgyrch yma ydy rhoi diwedd ar y cywilydd a'r gwahaniaethu mae pobl gyda phroblemau iechyd meddwl yn eu wynebu.

Cynllun Cyflogadwyedd

Mae'r cynllun cyflogadwyedd yn dweud sut y bydd Llywodraeth Cymru yn helpu pobl sydd:

- yn ei chael hi fwyaf anodd i gael swydd
- heb swydd
- mewn perygl o golli eu swydd.

Cyngor ar Waith Cymru

Mae Cyngor ar Waith Cymru yn wasanaeth newydd. Nod y gwasanaeth ydy ei gwneud hi'n haws i bobl gael y gefnogaeth maen nhw ei angen i ddarganfod a chadw swydd.

Rhagen Cymru'n Gweithio

Dyma raglen newydd i gefnogi pobl o bob oed i ddod dros rwystrau a chael y sgiliau maen nhw eu hangen i gael swydd.

Gyrfaoedd Cymru

Mae Gyrfaoedd Cymru yn rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i bawb yng Nghymru am yrfaoedd.

Y Gronfa Gymorth Dysgu Ychwanegol

Cronfa Llywodraeth Cymru ydy hon. Fe fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i ddysgwyr o'r gronfa yma i'w helpu i ddod dros y rhwystrau i ddysgu a hyfforddiant.

Rhaglen Mynediad i Waith

Mae'r rhaglen yma yn cefnogi pobl sydd mewn swydd ond sydd angen help ychwanegol nad ydy eu cyflgowyr yn ei roi iddyn nhw. Mae hyn yn gallu bod yn arian ar gyfer offer arbennig neu help i ddod a mynd o'r gwaith.

Hyderus gydag Anabledd

Dyma brosiect sydd yn helpu cyflogwyr i gyflogi pobl anabl a phobl gyda chyflyrau iechyd. Mae'r cynllun yma yn helpu cyflogwyr i gael y bobl orau gyda'r sgiliau a'r talentau cywir, heb adael i anabledd eu stopio.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ydy gwneud Prydain yn lle mwy teg. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod pawb yn dilyn y deddfau sydd yn amddiffyn hawliau pobl.

Rhaglen Gwaith ac Iechyd a Dewis Gwaith

Mae'r rhaglen gwaith ac iechyd a dewis gwaith yn cefnogi pobl i gael a chadw swydd.

Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

Mae Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn cynrychioli pob corff sydd yn darparu hyfforddiant a dysgu yn y gwaith.

Geiriau anodd

Amrywiaeth

Mae Amrywiaeth yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft pobl yng Nghymru sydd:

Asesiad

Mae asesiad yn ffordd o ddysgu mwy am rhywun. Er enghraifft, i weld pa gefnogaeth maen nhw ei angen.

Cydraddoldeb

Cydraddoldeb ydy trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael yr un cyfleoedd

Darparydd Prentisiaeth

Mae'r cwmnïau sydd yn rhedeg y Rhaglen Prentisiaeth yn cael eu galw yn ddarparwyr prentisiaeth.

Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)

Efallai bod pobl o gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn dod o wlad arall neu efallai bod lliw eu croen yn wahanol.

Gweithgor

Gweithgor ydy grŵp o bobl sydd yn dod at ei gilydd i wneud gwaith ar rhywbeth arbennig

Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio neu ddeall rhywbeth. Er enghraifft, ramp i fynd i mewn i adeilad neu wybodaeth hawdd ei ddeall.

Model cymdeithasol o anabledd

Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn dweud bod y ffordd y mae cymdeithas yn gweithio yn gallu stopio pobl anabl rhag gwneud pethau. Mae angen i gymdeithas newid y ffordd mae'n gweithio er mwyn gwneud bywyd yn fwy teg i bobl anabl.

Model Rôl

Model rôl ydy rhywun sydd yn rhoi esiampl dda i eraill.

Prentisiaeth

Prentisiaeth ydy pan mae person yn dysgu sgiliau swydd tra'n cael eu talu. Maen nhw'n derbyn llai o arian na rhai eraill sydd yn gwneud yr un gwaith oherwydd maen nhw'n dal i ddysgu. Prentis ydyn nhw.

Rhaglen Prentisiaeth

Mae'r Rhaglen Prentisiaeth yn wasanaeth sydd yn helpu pobl i gael prentisiaeth.

- Yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- Yn gallu gwneud pethau gwahanol
- Yn credu pethau gwahanol
- Mewn oedran gwahanol
- Yn gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw'n byw eu bywydau.